

### Swydd ddisgrifiad: Cyfarwyddwr Addysg Uwch a Phennaeth Cynorthwyol

<b>Maes Rhaglen / Adran</b>	Coleg Llandrillo
<b>Prif safle</b>	Llandrillo-yn-Rhos gydag angen gweithio achlysurol ar safleoedd eraill y Grŵp
<b>Cyflog</b>	£71,081.49 - £77,317.47 y flwyddyn Rheolwr Graddfa 16–20
<b>Y math o gontract</b>	Parhaol
<b>Telerau'r contract</b>	Llawn Amser
<b>Yn atebol i</b>	Pennaeth Coleg Llandrillo

### Pwrpas y swydd

Fel uwch arweinydd o fewn Grŵp Llandrillo Menai byddwch wedi ymrwmo i genhadaeth gyffredinol y Grŵp sef 'Gwella Dyfodol Pobl' ac sydd wedi'i hymgorffori yn ein pum thema strategol allweddol:

- Bod ar flaen y gad yn y byd modern
- Ein lle yn y gymuned
- Cyfleoedd i ddysgwyr a llwyddiant dysgwyr
- Defnyddio sgiliau a gwybodaeth i ysgogi'r economi
- Ein rôl mewn Cymru gynaliadwy

### Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

Mae'r rôl hybrid hon yn cyfuno cyfrifoldeb uwch arweinyddiaeth (Cyfarwyddwr) am Addysg Uwch ar draws Grŵp Llandrillo Menai yn ei gyfanrwydd, gyda chyfrifoldebau uwch arweinydd (Pennaeth Cynorthwyol) am un neu ddau o feysydd cwricwlwm Coleg Llandrillo ar draws ei gampysau yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Yr elfen Cyfarwyddwr Addysg Uwch sydd â'r rôl fwyaf ac mae'n cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i'r dyletswyddau allweddol canlynol:

o ran addysg uwch;

- Arwain ar gynllunio, monitro a datblygu darpariaeth AU y Grŵp a'r cyllid cysylltiedig
- Arwain ar ofynion rheoleiddio ar gyfer darpariaeth AU y Grŵp
- Arwain ar drefniadau partneriaeth allanol Grŵp AU ee SAUau, Cyflogwyr a Rheoleiddwyr
- Cefnogi creu a chyflawni strategaeth AU y Grŵp
- Arwain ar fyfyrwyr a gwerthuso strategaeth AU y Grŵp, y cwricwlwm a gweithgareddau cysylltiedig
- Cefnogi aelodau'r Tîm Polisi (tîm gweithredol) ym mhrosesau sicrhau ansawdd y Grŵp
- Dylanwadu ar a chefnogi uwch reolwyr a rheolwyr canol ar draws GLIM mewn twf AU, arloesi cwricwlaidd, gwella ansawdd a hunanwerthuso

Mae elfen Prifathro Cynorthwyol y rôl yn cynnwys dyletswyddau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau arwain uwch ar gyfer un neu ddau o feysydd cwricwlwm, yn dibynnu ar arbenigedd a phrofiad cwricwlwm yr ymgeisydd llwyddiannus. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn ymgeisydd sydd â phrofiad galwedigaethol mewn un neu fwy o feysydd Creadigol, Digidol neu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, oherwydd y swm sylweddol o ddarpariaeth

addysg uwch o fewn y Grŵp yn y meysydd hynny. Mae dyletswyddau fel Pennaeth Cynorthwyol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Arwain datblygiad arloesedd o fewn y cwricwlwm ac mewn addysgu a dysgu
- Arwain ar brosesau datblygu ansawdd o fewn y maes cyfrifoldeb i gyflawni safonau addysgu a dysgu rhagorol a chanlyniadau dysgwyr
- Bod yn rheolwr llinell i Reolwyr Meysydd Rhaglen a sicrhau bod y rheolwyr yn cael eu cefnogi a'u meithrin i berfformio i'r safonau uchaf.
- Sicrhau bod y staff yn y meysydd yr ydych yn gyfrifol amdanynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac effeithlon trwy gynllunio'n rhesymegol i ddiwallu anghenion y cwricwlwm
- Goruchwylio cyllidebau dirprwyedig y Meysydd Rhaglen er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol.

Bydd y meysydd cyfrifoldeb canlynol yn berthnasol i rolau arweinyddiaeth uwch AU ac AB:

- Arwain y broses o gynllunio'r cwricwlwm o fewn maes(meysydd) cyfrifoldeb y cwricwlwm i ddarparu arlwy cwricwlwm cydlynol, ymatebol a chost-effeithiol.
- Cysylltu â Thîm Marchnata'r Grŵp er mwyn hyrwyddo a marchnata darpariaeth a gwasanaethau'r coleg ac arwain y gweithgareddau marchnata a hyrwyddo ar y campws.
- Recriwtio hyd yr eithaf er mwyn cyrraedd targedau cofrestru.
- Sicrhau bod taith y dysgwr o'r ansawdd uchaf gyda dargadwad rhagorol, cwblhau'n llwyddiannus a dilyniant
- Sicrhau bod y dysgwyr yn cael cefnogaeth briodol er mwyn gallu cyrraedd eu targedau a chyflawni eu potensial.
- Ymateb yn briodol i faterion yn ymwneud â Diogelu ac Atal
- Cadeirio'r Panel Derbyn Dysgwyr a'r Panel Disgyblu.
- Sicrhau ymatebolrwydd i farn dysgwyr o fewn meysydd cyfrifoldeb
- Hyrwyddo dwyieithrwydd yn unol â Chynllun a Safonau Iaith Gymraeg y Grŵp.
- Sicrhau cyfleoedd a gwasanaethau cyfartal i'r holl ddysgwyr a staff, gan ddathlu amrywiaeth.
- Goruchwylio prosesau recriwtio a datblygiad proffesiynol staff yn y meysydd yr ydych yn gyfrifol amdanynt.
- Sicrhau bod prosesau rheoli perfformiad yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r staff i gyflawni eu llawn botensial.
- Adeiladu a datblygu timau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er mwyn darparu profiadau rhagorol i ddysgwyr.
- Defnyddio amrywiaeth o strategaethau cyfathrebu i gefnogi'r gwaith o reoli'r coleg yn effeithiol.
- Meithrin a chynnal amrywiaeth o gysylltiadau a rhwydweithiau allanol er mwyn hybu a gwella buddiannau'r campwsau a'r coleg.
- Gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn ddiogel ac yn addas i'r diben.
- Cynnal safon uchel o ymddygiad proffesiynol a bod yn batrwm i staff a dysgwyr;
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'ch rôl a'ch swydd ar gais y Pennaeth neu'r Prif Weithredwr.

Manyleb deiliad y swydd	Hanfodol	Dymunol	Dull asesu
<b>Cymwysterau</b>			
Cymwysterau academiaidd hyd at o leiaf radd anrhydedd dda neu gymhwyster cyfwerth yn ogystal â	X		Ffurflen gais

chymhwyster addysgu cydnabyddedig.			
Cymhwyster ôl-radd mewn pwnc academiaidd cysylltiedig.		X	Ffurflen gais
Cymhwyster ym maes rheoli		X	Ffurflen gais
<b>Gwybodaeth a phrofiad</b>			
Profiad addysgu sylweddol mewn maes perthnasol.	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Profiad sylweddol o ddylunio cwricwlwm, arloesi a rheoli	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Hanes llwyddiannus o arwain a rheoli rhaglenni addysg uwch	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Hanes o arwain darpariaeth addysgol o ansawdd uchel	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Profiad sylweddol o arweinyddiaeth staff o fewn cyd-destunau addysgol	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Datblygu a chynnal rhwydweithiau a phartneriaethau allanol llwyddiannus	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Hanes llwyddiannus o arwain a rheoli rhaglenni addysg uwch		X	Ffurflen gais / Cyfweliad
Profiad neu wybodaeth o gyflwyno a rheoli Addysg Uwch mewn sefydliad Addysg Bellach.	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Profiad neu wybodaeth o gyflwyno a rheoli Addysg Uwch mewn sefydliad Addysg Bellach.		X	Ffurflen gais / Cyfweliad
Wedi cael hyfforddiant i fod yn arolygydd cymheiriaid i Estyn		X	Ffurflen gais
Profiad o arwain timau trwy arolygiadau Estyn neu QAA		X	Ffurflen gais / Cyfweliad
<b>Sgiliau a phriodoleddau</b>			
Sgiliau arwain cydnabyddedig	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Sgiliau rhyngpersonol a sgiliau cyfathrebu rhagorol.	X		Ffurflen gais / Cyfweliad

Hanes rhagorol o drafod llwyddiannus, gan arwain at ddatblygiad busnes		x	Ffurflen gais / Cyfweliad
Y gallu i gynrychioli'r coleg yn wybodus, yn hyderus ac yn effeithiol ar bob lefel, gan gynnwys cyfathrebu â staff, dysgwyr, rhanddeiliaid ehangach ac amrywiol ac o fewn rhwydweithiau allanol	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Sgiliau TG cadarn a'r gallu i ddefnyddio pecynnau meddalwedd safonol yn effeithiol ac yn effeithlon	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Y gallu i reoli cyllidebau cymhleth, sylweddol, gan ymdrin â materion ariannol a thrafodaethau yn hyderus	x		Ffurflen Gais / Cyfweliad
Y gallu i reoli eich llwyth gwaith eich hun i safon uchel, datrys problemau cymhleth a chwrdd â thargedau'n effeithiol	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
<b>Nodweddion personol</b>			
Ymroddiad a theyrngarwch	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Trefnus iawn	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Yn dangos gweledigaeth a gallu i ysgogi eraill	X		Ffurflen Gais / Cyfweliad
Ymrwymiad i gynhwysiant a chydaddoldeb	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Ymrwymiad i ethos dwyieithog y sefydliad	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol pellach a pharhaus.	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Yn cyflwyno a threfnu'r cwricwlwm mewn modd arloesol.	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Ymrwymiad i ddefnyddio a datblygu Technoleg Dysgu	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
<b>Gwybodaeth</b>			

Dealltwriaeth o ddeddfwriaeth Diogelu a Prevent sy'n berthnasol i'r sector	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Dealltwriaeth o rôl ESTYN yn y sector addysg.	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Dealltwriaeth o rôl Medr o fewn y sector addysg	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Gwybodaeth a dealltwriaeth o AU mewn AB a'r cyfleoedd a'r heriau cysylltiedig	x		Ffurflen gais / Cyfweliad
Dealltwriaeth o rôl ASA yn y sector addysg	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Dealltwriaeth o gynllunio a chyllido AB	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
Gwybodaeth am waith presennol Cymwysterau Cymru a'r goblygiadau i'r sector AB	X		Ffurflen gais / Cyfweliad
<b>Sgiliau Cymraeg</b>			
Ceir manylion llawn am lefelau sgiliau Cymraeg yn: <a href="https://www.gllm.ac.uk/cy/jobs">https://www.gllm.ac.uk/cy/jobs</a>			
<b>Dealltwriaeth o'r Gymraeg</b>	Sylfaenol		Ffurflen gais / Cyfweliad
<b>Gallu i siarad Cymraeg</b>	Sylfaenol		Ffurflen gais / Cyfweliad
<b>Llythrennedd Cymraeg</b>	Mynediad		Ffurflen gais / Cyfweliad
<b>Noder:</b> rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr sy'n nodi eu bod yn is na lefel 2 y gofyniad sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer y swydd ar yr amod y byddai unrhyw gynnig o gyflogaeth yn cynnwys cytundeb cytundebol i ddatblygu eu Sgiliau Cymraeg i isafswm o lefel 2.			
<b>Gofynion gorfodol</b>			
<p>Yn unol â Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg 2015 mae'n ofyniad statudol bod unigolion yn cofrestru â'r Cyngor cyn dechrau gweithio yn y Grŵp.</p> <p>Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i Ddiogelu ac amddiffyn iechyd a lles plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, bydd gofyn i unigolion gael gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gadarnhau eu bod yn addas i weithio mewn amgylchedd addysgol. Bydd tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) trwy wasanaeth diweddarau'r gwasanaeth yn cael eu derbyn yn unol â'r canllawiau a geir yn - <a href="https://www.gov.uk/dbs-update-service">https://www.gov.uk/dbs-update-service</a>.</p> <p>O dan adran 8 Deddf Mewnffudo a Lloches 1986, mae'n ofyniad cyfreithiol ar unigolion i ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n cadarnhau bod ganddynt hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig.</p>			
<b>Crynodeb o'r telerau a'r amodau</b>			

<b>Oriau gwaith</b>	37 awr yr wythnos
<b>Wythnosau gwaith</b>	52 wythnos y flwyddyn
<b>Gwyliau blynyddol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>● 37 diwrnod y flwyddyn (01 Medi i 31 Awst).</li> <li>● Yr holl wyliau cyhoeddus arferol, i'w pennu'n flynyddol.</li> <li>● Hyd at 5 diwrnod effeithlonrwydd bob blwyddyn, i'w pennu'n flynyddol.</li> <li>● Bydd gan y rhai ar gontractau rhan-amser hawl pro rata i'r hyn a nodir uchod.</li> <li>● Bydd gan y rhai ar gontractau Amser Tymor hawl pro rata i'r hyn a nodir uchod a delir fel rhan o'r cyflog blynyddol.</li> </ul>
<b>Pensiwn</b>	Cynllun Pensiwn Athrawon ( <a href="https://www.teacherspensions.co.uk/">https://www.teacherspensions.co.uk/</a> )
<b>Teithio</b>	<p>Mae'r trefniadau i ad-dalu gweithwyr sy'n mynd i gostau ychwanegol wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol ar ran y Grŵp wedi'u hamlinellu ym mholisi Teithio, Cynhaliaeth ac Adleoli GLIM.</p> <p>Yn dilyn eu penodiad, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus lenwi Ffurflen Asesu Gyrwyr ar gyfer Sgrinio Iechyd (os yw'n berthnasol). I gadarnhau bod ganddynt yswiriant at "Ddibenion Busnes", mae'n rhaid i bob gweithiwr sy'n hawlio treuliau am ddefnyddio eu ceir personol gyflwyno copïau o'u tystysgrif yswiriant i Adran Gyllid y Grŵp bob blwyddyn.</p>
<b>Sgrinio Iechyd</b>	Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ateb holiadur iechyd ac efallai y bydd gofyn iddynt gael archwiliad meddygol.

